

Y Rhedwr Anhysbys!


Adnoddau addysg CA4 gan Marvin Thompson

Ai ti yw'r Rhedwr Anhysbys?

Beth fyddwn ni'n ei ddysgu? Rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'r llun o'r Rhedwr Anhysbys i edrych ar wahaniaethu (discrimination). Mae hyn yn cynnwys edrych ar degwch, caredigrwydd a chydreddoldeb. Erbyn cwblhau'r llyfryn hwn byddwch chi wedi mwynhau llawr o weithgareddau gwahanol, gan gynnwys creu poster i drechu gwahaniaethu a ffilm fer hyd yn oed!

Ymarfer 1: Artist du o Brydain o'r enw Chris Ofili a greodd y llun yma. Ond pwy yw'r rhedwr? O ble maen nhw'n dod? Oes ganddyn nhw anabledd? Ydyn nhw'n ddyn, menyw, neu ddim un o'r ddau? Ydyn nhw'n hen neu ifanc? Yn hapus neu'n drist?

Atebwch y cwestiynau drwy wneud nodiadau o amgylch y llun. Meddyliwch am o leiaf 7 syniad!



Ymarfer 2: Beth yw gwahaniaethu?

Geiriau: anheg / grym / y Byd / canrifoedd / caredig / Rhedwr Anhysbys / Prydain

Gwahaniaethu yw pan fydd rhywun sy'n cael ei weld yn 'wahanol' yn cael eu trin yn _____. Mae'n broblem sy'n bodoli ym Mhrydain ac mewn gwledydd ledled _____.

Gall gwahaniaethu dyfu'n broblem fawr pan fydd pobl â _____ yn penderfynu trin grwpiau o bobl yn anheg. Dychmygwch ddiodeff gwahaniaethu gan eich athro, eich pennaeth yn y gwaith, neu wleidydd sy'n creu cyfreithiau eich gwlad. Sut fyddai hynny'n gwneud i chi deimlo?

Ymhlith y grwpiau sy'n diodeff gwahaniaethu ym _____ mae; pobl Ddu, pobl Asiaidd, menywod, aelodau'r gymuned LGBTQ+ a pobl sydd ag anabledd.

Yn waeth byth, mae nifer o'r grwpiau yma yn wynebu gwahaniaethu ers _____. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaethu yn broblem hanesyddol. Mae hyn yn gallu gwneud gwahaniaethu yn fwy poenus oherwydd mae'n ymddangos bod y driniaeth anheg yn ddiddiwedd. Ond diolch i addysg, a dathlu gwahaniaethau, gallwn ni wneud y byd yn lle mwy _____ i bawb.

Efallai bod rhai pobl sy'n diodeff gwahaniaethu yn dymuno bod fel _____. Does ganddo ddim lliw croen, dim anabledd na rhywedd i bobl eu targedu.

Atbion: anheg / y Byd / grym / Prydain / canrifoedd / caredig / y Rhedwr Anhysbys

Gweithgaredd 1: Ysgrifennu cerdd restr am wahaniaethau

Efallai bod rhai pobl sy'n dioddef gwahaniaethu yn dymuno bod fel y Rhedwr Anhysbys. Does ganddo ddim lliw croen, dim anabled a dim rhywedd i bobl eu targedu.

O gofio hyn, beth am gasglu syniadau ar gyfer cerdd restr. Teitl y gerdd fydd ***Sut beth fyddai bod fel y Rhedwr Anhysbys.***

Tasg 1: Rhestrwch saith peth all wneud i chi wenu (mae un wedi llenwi'n barod).

1. Cwtsh mawr gan Mam-gu

2.

3.

4.

5.

6.

7.

Syniadau:

- Clywed sacsoffon aur
- Llyfu hufen ia siocled
- Chwerthin a chwerthin heb stop
- Dathlu sgorio gôl gyda ffrind
- Dawnsio i gerddoriaeth wyllt gyda môr-forwyn

Fy ngherdd i:

Sut beth fyddai bod fel y Rhedwr Anhysbys

Fel llyfu fy hoff hufen ia

Neu chwerthin a chwerthin heb stop

Fel dawnsio yn y tonnau gyda dolffin!

Neu ddathlu gôl gyda ffrind

Tasg 2: Aildrefnwch eich rhestr chi yn gerdd. Ceisiwch drefnu'r rhestr er mwyn gorffen gyda'r syniadau mwyaf emosiynol neu bwerus!

Eich Cerdd

Sut beth fyddai bod fel y Rhedwr Anhysbys

Gweithgaredd 2: Ysgrifennu soned sy'n dathlu gwahaniaeth

Cerdd 14 llinell yw soned oedd yn boblogaidd gan feirdd enwog fel Shakespeare, T. H. Parry-Williams, a Patience Agbabi. Cerdd serch oedd y soned yn draddodiadol, felly maen nhw'n berffaith i siarad am hunaniaeth a derbyn eich hun.

Mae rhai pobl sy'n dioddef gwahaniaethu yn dymuno bod fel y Rhedwr Anhysbys. Ond mewn gwirionedd, mae'n debyg y byddai pobl yn gwahaniaethu yn erbyn y Rhedwr Anhysbys am eu bod yn wahanol.

Defnyddiwch syniadau o'r holl weithgareddau i ysgrifennu soned 14 llinell sy'n darganfod a dathlu'r hyn sy'n eich gwneud chi'n wahanol.

Cyngor craff:

- **Defnyddiwch ferfau pwerus:** sglaffio yn lle bwyta, ymlwybro yn lle cerdded.
- **Byddwch yn benodol:** Alsatian yn lle ci, tylluan wen yn lle aderyn.
- **Defnyddiwch bersonoli:** Mae'r mynyddoedd yn gwyllo.
- **Byddwch yn chwareus a dychmygus:** Gallwch chi ysgrifennu cerdd o safbwynt eich pen-glin, neu ddefnyddio ieithoedd gwahanol os yw hynny'n helpu.
- **Mwynhewch:** Does dim rheolau wrth ysgrifennu barddoniaeth, dim ond mwynhau!

Dyma rai syniadau ar sut i strwythuro eich soned:

8 llinell gyntaf	6 llinell olaf
Rhestru'r hyn sy'n eich gwneud chi'n wahanol	Pam fod y rhain yn fy ngwneud i'n arbennig
Pethau oeddwn i'n arfer casáu am fy hun	Pam ydw i nawr yn caru'r rhain
Pethau mae pobl arall yn eu casáu amdana i	Pam ydw i nawr yn caru'r rhain
Beth fyddwn i'n ei ennill taswn i ddim yn wahanol	Beth fyddwn i'n ei golli taswn i ddim yn wahanol


Nodiadau a syniadau

Eich soned

Her: troi eich cerddi yn ffilm fer am hunaniaeth a gwahaniaethu

- 1) Gweithiwch mewn grwpiau o dri.
- 2) Ysgrifennwch sgrïpt.
- 3) Meddyliwch am leoliad, onglau camera, goleuo a sain.
- 4) Mae sawl ap a rhaglen am ddim i'ch helpu chi greu hysbyseb broffesiynol.
- 5) Dangoswch eich hysbys i ffrindiau, teulu, neu yn y gwasanaeth ysgol!

Pwy yw Marvin Thompson?



Ganwyd Marvin Thompson yn Tottenham, gogledd Llundain i rieni o Jamaica, ac mae bellach yn byw ym mrynau de Cymru. Mae ei gasgliad cyntaf o gerddi, *Road Trip* (Peepal Tree Press, 2020), yn un o Argymhellion y Gymdeithas Llyfrau barddoniaeth. Ym mis Mehefin 2020, dewisodd y Gymdeithas Farddoniaeth y llyfr yn un o bum llyfr sy'n ysbrydoliaeth Mae Bywydau Du o Bwys.

Roedd *Road Trip* hefyd yn un o'r 40 casgliad gafodd eu hargymell yn swyddogol ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth 2020. Cafodd ei ddisgrifio gan y *Guardian* fel 'taith fywiog drwy gymhlethdod bywyd teuluol Du ym Mhrydain.'

Yn 2019, roedd Marvin yn un o wyth awdur a dderbyniodd grant Llenyddiaeth Cymru fel rhan o gynllun nawdd Rhoi Llwyfan i Awduron a gaiff eu Tangynrychioli. Roedd hefyd ar restr fer Gwobr Farddoniaeth Manceinion 2019.

Yn 2016, dewiswyd Marvin Thompson Nine Arches Press ar gyfer cynllun mentora Primers. Mae ganddo radd MA mewn ysgrifennu creadigol.